

DEWCH



gyda



NI!



cymdeithas yr iaith gymraeg
cymdeithas yr iaith gymraeg

Clawr

Manylion Cyhoeddi

Faint o amser sy'n weddill? (1)

Faint o amser sy'n weddill? (2)

Ym 1963... (1)

Ym 1963... (2)

Statws i'r iaith

Yr ydym wedi ennill llawer (1)

Yr ydym wedi ennill llawer (2)

Yr ydym wedi ennill llawer (3)

Trefn Addysg i Gymru

Trefn Addysg i Gymru - yn ôl i'r dechrau (1)

Trefn Addysg i Gymru - yn ôl i'r dechrau (2)

Ennill tir yn ôl

S4C - Pwy dalodd amdani?

S4C - Pwy dalodd amdani?

Ac ym maes radio...

Ond beth yw pwynt...?

Nid yw Cymru ar Werth

Ateb y 1990au - Deddf Eiddo

Cynllunio dyfodol i'r iaith

Iaith a gwaith (1)

Iaith a gwaith (2)

Cymru Rydd - er mwyn yr iaith! (1)

Cymru Rydd - er mwyn yr iaith (2)

Rhyddid i'r ifanc

Bywyd newydd i'r hen iaith | Y grym di-drais (1)

Y grym di-drais (2) | Dewch gyda ni!

Dyma Gymdeithas yr Iaith

Clawr ôl

DEWCH



gyda

NI!

Rhifyn cyntaf

Argraffiad cyntaf Gorffennaf 1981

Ailargraffiad Gorffennaf 1984

Ail rifyn

Argraffiad cyntaf Mawrth 1997

Fersiwn i'r We a PDF Mai 1998

© Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

Dylunio a chysodi: Iwan Standley@Ångel

cymdeithas yr iaith gymraeg
cymdeithas yr iaith gymraeg

FAINT O AMSER SY'N WEDDILL?



Mae'n ddigon posibl mai hon yw'r genhedlaeth olaf o blant i gael eu magu mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

Hyd at ddechrau'r 20fed ganrif yr oedd mwyafrif o bobl Cymru yn medru siarad Cymraeg.

Erbyn 1991 roedd y nifer wedi disgyn i 18.7%.

Ni allwn gysuro ein hunain drwy ddweud fod y Gymraeg yn weddol ddiogel yn yr ardaloedd Cymraeg.

Erbyn 1991 roedd llai na 63% o blant ysgolion Gwynedd yn medru'r Gymraeg.

Oni welir newid mawr yn y sefyllfa, a hynny ar fyrder, ni fydd cymdeithasau naturiool Cymraeg yn bod o fewn 30 mlynedd.

Am 1,500 o flynyddoedd, y Gymraeg oedd unig iaith eingwlad. Mae hanes Cymru yn ymestyn nôl i'r 6ed ganrif OC. Cyn bod sôn am y Saesneg, roedd gan y Cymry eu hiaith a'i diwylliant unigryw. Roedd cyfreithiau Hywel Dda ymysg y cyfundrefnau mwyaf gwareiddiedig yn y byd. Gallwn ymfalchïo fod gennym drtaddodiad llenyddol a barddol cystal ag unrhyw un o wledydd Ewrop.

Ac eto, ar ddechrau'r 21ain yr ydym ar fin colli gafael ar hyn i gyd. Mae'r amser yn brin. Mae yma gyfrifoldeb arswydus ar ein hysgwyddau. A ydym yn fodlon ei wynebu?



Dim ond un agwedd o'r dirywiad yng Nghymru yw argyfwng yr iaith.

Mae'r rhan fwyaf o'n pobl yn gorfod symud o'u hardaloedd i chwilio am waith.

Mae'r system addysg estron yn ein hysgolion yn dysgu ein plant i wneud hynny.

Mae cartrefi mewn llawer o'n hardaloedd yn troi yn dai haf ac yn dai i bobl ymddeol; codir stadau mawr mewn llawer pentref ar gyfer pobl o'r tu allan.

Mae ieuencid ein gwlad yn cael eu cyflyrru i dderbyn mai gadael eu bro eu hunain i chwilio am waith yw eu tynged. Daw pobl wedi ymddeol ac eraill i gymryd eu lle.

Mae'r Gymru yr ydym ni yn eu hadnabod yn prysur ddiplannu o flaen ein llygad.

Ac ers 1979... Bendithion y Torïaid!

Aeth y Torïaid ati i dynnu i ffwrdd yr ychydig ryddid oedd gan bobl Cymru.

- Tanseilio Awdurdodau Unedol Cymru
- Gwanychu Undebau Llafur
- Tynnu i ffwrdd grantiau myfyrwyr
- Gosod eu pobl eu hunain ar eu Quangos i'n rheoli

Y Farchnad Rydd sydd i'n rheoli; hynny yw, rhyddid i rai gydag arian a grym o ran tai a dylanwad.

Chwelir cymdeithasau bychain ac mae'r iaith yn diflannu yn y broses. Yr unig fodd o adfer yr iaith yw ei hadfer o fewn cymdeithasau sefydlog a naturiol Gymraeg.

Dylai adferiad yr iaith fod o ddiddordeb i bawb yng Nghymru ac yn rhan o'r newidiadau eang sy'n rhaid eu gwneud i sicrhau dyfodol i'n pobl.

Ym 1963...

- Roedd arwyddion ffyrdd a ffurflenni swyddogol bron i gyd yn Saesneg
- Dim ond ychydig o raglenni Cymraeg oedd ar y teledu, ar amserau amhoblogaidd
- Doedd dim cerddoriaeth roc Gymraeg
- Roedd pobl Cymru'n credu mai Saesneg oedd iaith 'dod ymlaen yn y byd'
- Roedd y Saeson newydd foddi Tryweryn

Ym 1963 sefydlwyd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

i herio'r drefn a ddiastriai ein hiaith.



Dechreuodd y Gymdeithas ymgyrchu trwy fynnu statws cyhoeddus i'r iaith Gymraeg. Gwelodd Cymru fod hwn yn fudiad a oedd yn fodlon gweithredu yn ogystal â siarad.

Aeth y Gymdeithas yn ei blaen i geisio lle teilwng i'r Gymraeg ar y teledu ac ym myd addysg. Yma eto, llwyddwyd i arwain ymgyrch genedlaethol a chrisialu barn pobl Cymru yn erbyn Llywodraeth a oedd mor amharod i wrando.

Trwy gydol yr amser yr oedd aleodau'r Gymdeithas ledled Cymru yn gweithio'n galed o ddydd i ddydd yn trefnu adloniant Cymraeg, yn cynnal cyrsiau Cymraeg i ddysgwyr ac yn hybu'r defnydd o'r Gymraeg yn eu hardaloedd eu hunain.

Ers canol y 1970au daeth Cymdeithas yr Iaith i gredu fod tynged yr iaith yn dibynnu'n bennaf ar barhâd cymunedau lleol.

Nid oes llawer o bwrpas cael statws i'r iaith na dysgu Cymraeg i'n plant os bydd ein cymunedau lleol yn chwalu. Ond dyma a ddigwydd wrth i Gymry ifainc orfod symud allan i chwilio am waith ac wrth i gannoedd o Saeson ddylifo i gymryd eu lle.

Felly pwysodd y Gymdeithas ar gynghorau i ddiogelu tai i bobl leol. Gweithredodd gan amharu ar y farchnad dai haf. Pwysodd hefyd am gynllunio dyfodol i'r Gymraeg.

Golygai hyn oll newid mawr yn y drefn, a llawer mwy o reolaeth gymdeithasol.

Yn awr, mae'r Gymdeithas yn troi ei sylw at bwy sy'n rheoli Cymru. Heb rym gwleidyddol ac economaidd ni all pobl Cymru amddiffyn eu cymunedau a'u hiaith. Hyn, i raddau helaeth, a fydd yn penderfynu a fydd dyfodol i'r Gymraeg.

Mae llawer o waith o hyd i'w wneud o ran hybu'r defnydd o'r Gymraeg ym mhob maes o fywyd Cymru. Mae mwy byth o waith i'w wneud o ran creu trefn newydd lle y gall y Gymraeg fyw ynddi. Ym 1992, cyhoeddwyd Maniffesto 'Cymunedau Rhydd — nid y Farchnad Rydd' — ynddi cawn fapio allan y ffordd ymlaen gyda pholisïau i roi i bobl Cymru grym real i greu dyfodol i'n cymunedau — o ran tai a gwaith i bobl leol, o ran rheoli'u haddysg eu huanin, o ran polisi iaith a rhyddid gwleidyddol.

*Ni bydd byw y Gymraeg oni enillwn ni Ryddid i Gymru.
Dyma'r her cyffrous a wyneba pobl Cymru.*

Gofynnwn i chwi ddarllen y tudalennau nesaf a gofyn tri cwestiwn i chi eich hunain:

- 1 A oes yna waith pwysig i'w gyflawni?**
- 2 A fydd unrhyw un arall yn gwneud y gwaith hwn yn drylwyr os na wnaiff Cymdeithas yr Iaith?**
- 3 A ddewch chi gyda ni a rhoi amser i'r gwaith?**

DEWCH GYDA NI →

STATWS I'R IAITH

Hyd yn ddiweddar, Saesneg oedd iaith pob ffurflen ac arwydd a Saesneg oedd iaith pob adran o'r Llywodraeth.

Nid oedd gan y Cymro hawl i ddefnyddio ei iaith ei hun yn ei wlad ei hun. Yn waeth byth, roedd y Cymry yn barod i dderbyn hynny.

Arwyddion Saesneg oedd bathodyn taeogrwydd ein cenedl.

Oherwydd y taeogrwydd hwn, ni ddefnyddiai'r Cymry eu hiaith, a magodd llawer eu plant yn Saesneg. Ymwrthododd Cymdeithas yr Iaith â'r taeogrwydd hwn a gweithredodd yn gadarn gan orfodi'r awdurdodau i roi parch i'r Gymraeg. Yn araf, newidiodd pobl eu hagwedd tuag at y Gymraeg.

Rhyddhaodd yr ymgyrch ynni newydd ar gyfer ymgyrchoedd eraill.

Wedi ennill buddugoliaeth syml fel hyn ar y cychwyn, datblygodd y Gymdeithas gyda hyder i symud ymlaen.



YR YDYM WEDI ENNILL LLAWER

Ffurflenni Cymraeg, Arwyddion Cymraeg, Cymraeg yn y Swyddfa Bost ayyb ayyb.

Ac eto

roedd yn rhaid brwydro ac aberthu dros bob un consesiwn.

Felly

yn y 1980au, fe ddechreuon ni ymgyrchu ni dros



... i sicrhau fod pob cyhoeddiad ac hysbysiad swyddogol yn dod yn naturiol ddwyieithog trwy gyfraith, heb orfod gofyn.

Ar ôl ymgyrchu caled a llawer o garchariadau a dirwyon, gorfodwyd y Llywodraeth i ymateb. Ceisiodd brynu amser trwy sefydlu Quango dof — ‘Bwrdd yr Iaith Gymraeg’ — gan ddewis yr aelodau eu hunain.

Dywedodd Cymdeithas yr Iaith ‘NA’ a dal i ymgyrchu dros gyfiawnder i Gymru. Daeth 2,000 ac wedyn 4,000 i raliau mawr yng Nghaerdydd, a dechreuodd pob math o bobl dorri’r gyfraith wrth brotestio dros Ddeddf Iaith Gyflawn.

NA

Ymateb y Llywodraeth oedd i drïo rhannu pobl Cymru a chynnig y lleiaf i gadw pobl Cymru’n dawel. Pasiwyd Deddf Iaith wan — gan esgusodi cyfeillion y Torïaid mewn cwmnïau preifat rhag gwneud dim — a phenodwyd yr ‘Arglwydd’ Dafydd Elis Thomas yn gadeirydd ar y Bwrdd.

Ni wnaeth y Quango laith erioed condemio'r Llywodraeth Doriaidd am ddifrodi'r iaith.



'Nid wyf yn ddyn i ymddiswyddo,' meddai Dafydd Êl, ac 'Nid fy lle i yw beirniadu'r Llywodraeth,' meddai Meirion Prys Jones (Swyddog Addysg y Quango laith).

Daeth yn rhwyg a brwydr rhwng y *Cymry Parchus* a oedd am i bobl eistedd nôl am sbel a 'rhoi cyfle' i'r Quango laith, a *Chymdeithas yr Iaith* a fynnodd fod y Quango laith yn sefyll yn ffordd cyfiawnder a bod ei aelodau'n cydweithio â'r Torïaid trwy wasanaethu ar eu Quangos gwleidyddol.

Daeth yn amlwg fod nifer o Gymry Cymraeg yn barod i gydweithio â'r Torïaid — dim ond iddyn nhw gael arian i gynnal Sianel Gymraeg, y Steddfod, rhywfaint o ysgolion Cymraeg a'r Quango ei hunain, doedd dim ots am ryddid i Gymru a bywyd i'w chymunedau lleol.

Aeth Cymdeithas yr Iaith yn ôl i frwydro a dangos fod

Y Ddeddf Iaith Wedi Methu:

Er enghraifft: BT — wedi blynyddoedd o ddanfon biliau dwyieithog at bawb yng Nghymru, penderfynodd BT y byddai'n rhaid i bobl ofyn yn arbennig am filiau Cymraeg. Dim problem, medd y Bwrdd Iaith.

Holl gwmnïau preifat — ffrindiau'r Torïaid — yn cael eu hesgusodi rhag gofynion y Ddeddf Iaith. Dim problem, medd y Bwrdd Iaith.

Gall yr Ysgrifennydd Gwladol anwybyddu argymhellion y Bwrdd Iaith. Dim problem, medd ei gadeirydd Dafydd Êl — 'Dwi ddim yn un i ymddiswyddo.'

Ac nid yw Cymdeithas yr Iaith yn fudiad i roi'r gorau iddi. Brwydrwn ymlaen nes cael Deddf Iaith Gyflawn fydd yn gwneud pob rhagfarnu'n erbyn y Gymraeg yn anghyfreithlon.

Wrth ymladd dros Statws i'r laith, rydym ni'n cael gwared â'n taeagrwydd fel cenedl ac yn datgan mai Cymry ydym ni.

Wrth fod Cymdeithas yr laith wedi ennill brwydr ar ôl brwydr, yr ydym yn ennyn hunan-hyder yn ein mudiad a'n pobl i greu dyfodol newydd i Gymru.

DEWCH GYDA NI —YMLAEN



TREFN ADDYSG I GYMRU



Os yw Cymru a'r iaith i fyw, rhaid i ni ennill rhyddid yng Nghymru i adeiladu'n trefn addysg ein hunain.

Rhaid i ni gael rhyddid am fod Llywodraeth Prydain yn dinistrio addysg Cymru

Mae'r Llywodraeth wedi:

- Gwrthod ym 1990 gynllun £8miliwn i agor Canolfannau Dysgu Cymraeg i Oedolion ledled Cymru i sicrhau fod pawb yn cael cyfle teg
- Cael gwared ym 1992 â'r Pwyllgor Datblygu Addysg Gymraeg democrataidd
- Pasio Deddf Addysg Seisnig yn Nghymru ym 1993 i danseilio Awdurdodau Addysg Lleol Cymru gan beryglu polisïau iaith, swyddi Athrawon Bro a Chanolfannau Iaith i fewnfudwyr
- Gosod eu Quango eu hunain i geisio rheoli addysg Cymru, a Mini-Quangos i reoli colegau Cymru
- Cwtogi o hyd ar grantiau myfyrwyr er mwyn eu caethiwo

A does neb wedi gofyn i ddisgyblion a myfyrwyr am eu barn nhw!

***Rydyn ni ar fin ennill buddugoliaeth
fawr wedi 15 mlynedd o ymgyrchu***

1983 Cododd Cymdeithas yr Iaith faner dros Gorff Datblygu Addysg Gymraeg.

Cerddodd gorymdaith fawr o aelodau'r Gymdeithas o Faes yr Eisteddfod yn Llangefni at y Swyddfa Gymreig yng Nghaerdydd gan gasglu 20,000 o enwau ar Ddeiseb ar y ffordd.



- 1984/5/6 Gweithredu! Gweithredu! Gweithredu'n erbyn Swyddfeydd y Torïaid a'r Llywodraeth. Chwalwyd Uned y Torïaid ar Faes Eisteddfod Genedlaethol y Rhyl — ac ni ddaethant erioed yn ôl! Carcharwyd Dafydd, Meinin, Ceri, Ffred, a llawer mwy.
- 1987 Gorfodwyd y Llywodraeth i wahodd CBAC i sefydlu Pwyllgor Datblygu Addysg Gymraeg democrataidd, ond torrodd Wyn Roberts ei air i roi cyllid iawn i'r corff newydd. Daliodd y Gymdeithas i bwysu.
- 1990 Penderfynodd y Pwyllgor Datblygu Addysg Gymraeg wneud safiad a mynnu cyllid iawn a grym gan y Llywodraeth. *Ymateb y Llywodraeth* — chwlaau PDAG a rhoi'r gwaith i'w Quangos diogel eu hunain.
- 1992 *Ymateb Cymdeithas yr Iaith* — Codi baner ac ymgyrch newydd dros Ryddid i Gymru mewn Addysg — trefn Gymreig annibynnol na ellid eu chwalu dim mwy.

- 1993 Gweithredu'r Drefn Deg — grwpiau o ddeg o fyfyrwyr, disgyblion, rhieni, athrawon, llywodraethwyr yn gweithredu'n erbyn Swyddfeydd y Llywodraeth.
- 1994 Gweithredu bob wythnos am flwyddyn yn erbyn Quangos Addysg y Llywodraeth
- 1995 Taith o amgylch Cyngorau Sir newydd Cymru i bwysu arnynt i adeiladu Trefn Addysg Gymreig o'r gwaelod.
- 1996 Cyhoeddi ymgyrch dros Drefn Addysg i Gymru, yn cynnwys
 - Cynllun Addysg i bob sir
 - Is-bwyllgor Datblygu Addysg Gymraeg ym mhob sir
 - Cyngor Addysg Cenedlaethol Democratiaid i Gymru

Yn y cyfamser

- bu celloedd lleol Cymdeithas yr Iaith yn ennill brwydrau ledled Cymru, er enghraifft
 - Polisi iaith newydd i ysgolion Dyfed
 - Diogelu ysgolion gwledig



D

Mae miloedd o bobl yng Nghymru na chawsant gyfle teg i ddysgu'r Gymraeg tra yn yr ysgol ac sy'n dymuno cael cyfle yn awr i ddysgu'r iaith.

Nid yw'r rhain yn cael cyfle teg ar hyn o bryd.

Mae Cymdeithas yr Iaith yn

- Cynnal dosbarthiadau a chyrsiau i ddysgwyr
- Pwyso ar gyrfn i ryddhau gweithwyr i ddysgu Cymraeg
- Pwyso am gyfle teg i'r miloedd sydd eisiau dysgu Cymraeg

1995

Enillwyd yr hawl i ddefnyddio disg **D**. Enillwn yr hawl nawr i Gymry di-Gymraeg adennill eu hetifeddiaeth.

S4C — PWY DALODD AMDANI?



S4C

• Dyw'r Llywodraeth erioed wedi rhoi **dim** i'r Gymraeg heb ein bod ni'n brwydro amdano. Nid y Llywodraeth a roddodd S4C i ni — Cymdeithas yr Iaith a phobl Cymru a frwydrodd i'w hennill.

Ym 1970, dywedodd pawb na fyddai'r Llywodraeth byth yn rhoi sianel deledu Gymraeg i ni. Erbyn heddiw, mae diwydiant teledu Cymraeg yn allforio i'r byd — arwydd o'r hyder a roddodd brwydr y Gymdeithas i bobl Cymru.

Brwydr y Sianel

1970 Llundain polisi a chyhoeddi dechrau ymgyrch.

1971 Aelodau'r Gymdeithas yn dringo mastiau ledled Cymru ac yn torri i mewn i stiwdios teledu yn Lloegr gan ddifrodi eiddo. Carchariadau hyd at 2 flynedd.

1972 Dechrau gwaith Comisiwn Crawford i ddarlledu yng Nghymru. Miloedd o bobl yn gwrthod talu am eu twydded deledu.

1973 Dal i bwyso, gyda 3 mis o weithredu difrifol ddwywaith yr wythnos yn erbyn adeiladau ac eiddo'r cwmnïau teledu a'r Llywodraeth.



S4C

• O fewn 5 mlynedd, gwelodd dros 1,000 o aelodau'r Gymdeithas y tu mewn i waliau carchar oherwydd eu rhan yn yr ymgyrchoedd dros Sianel Gymraeg a Statws Swyddogol i'r Iaith.

1974 Llywodraeth yn derbyn argymhelliad Crawford y dylid sefydlu Sianel Deledu Gymraeg.

OND doedd dim cyllid ar gael i'w sefydlu ym 1975 nac ym 1976 nac ym 1977.

1978 Ail-gychwyn ymgyrchu gyda'r gweith-

redoedd mwyaf difrifol yn hanes y Gymdeithas gyda difrod o ddegau o filoedd o bunnau i fastiau teledu ym Mhlaenplwyf ac yn Lloegr. Carchariadau eto.

Buddugoliaeth

Llywodraeth Lafur yn cytuno i roi gychwyn ar Sianel Gymraeg a'r Torïaid yn cydsynio.

Brad

Wedi ennill yr Etholiad, torrodd y Llywodraeth Dorïaid eu gair gan ddweud na byddai Sianel Gymraeg wedi'r cyfan. Gwilym Owen (colofn gas Golwg) yn dweud mai ymgyrchwyr y Sianel oedd pobl mwyaf siomedig diwedd y degawd.

I'r Gad

Cymru wedi gwylltio ac yn brwydro'n ôl —

- Cymdeithas yr Iaith yn torri i mewn i fastiau ac yn diffodd teledu yng Nghymru a Lloegr a chynllunio raliâu torfol
- 2,000 o bobl yn gwrthod eto talu treth deledu
- Gwynfor Evans yn cyhoeddi bwriad i ymprydio

Buddugoliaeth

Ildiodd y Torïaid.

Gwers

Gall mudiad a chenedl benderfynol drechu grym y Llywodraeth.

AC YM MAES RADIO...

Enillwyd tonfeddi Radio Cymru a Radio Wales.

1988 Gorfodwyd Radio Cymru i adfer rhaglenni leuenctid gyda'r hwyr.

Ac eto — mae gwaith i'w wneud o hyd

- Mini-Quangos sy'n trefnu S4C a Radio Cymru
- Bu'r Gymdeithas yn pwysu am Adran Rhaglenni leuenctid yn y BBC gyda grym i Gymry ifainc benderfynu ar eu rhaglenni eu hunain
- Gall fod bygythiad i gyllid S4C o dan y trefniadau newydd
- Ceisiodd penaethiaid Radio Cymru wthio mwy o Saesneg arnom



OND BETH YW PWYNT...

- Statws Swyddogol i'r laith heb neb ar ôl i'w defnyddio
- Sianel Deledu Gymraeg heb neb ar ôl i'w gwyllo
- Addysg Gymraeg os bydd pawb yn gorfod Cymru i gael gwaith a chartrefi



Agorodd Ail Ffrynt brwydr y Gymdeithas ←

Cymunedau Rhydd — nid y Farchnad Rydd

- Ni bydd y Gymraeg fyw onibai fod cymunedau Cymraeg yn byw. Does dim pwynt fod unigolion yn dysgu Cymraeg onibai eu bod yn cael eu tynnu i mewn i gymdeithas Gymraeg
 - Mae polisïau Marchnad Rydd y Torïaid wedi chwalu cymunedau lleol trwy Gymru. Arian ac nid pobl sydd bwysicaf gan y Farchnad Rydd ac felly mae Cymry ifanc wedi gorfod mynd o Gymru i chwilio am waith ac mae pobl o'r tu allan gyda mwy o arian wedi prynu tai a thir Cymru
 - Dywed Maniffesto Cymdeithas yr laith fod yn rhaid wrth bolisïau newydd — o ran tai, cynllunio a'r economi — wedi'u hanelu at sicrhau bywyd a pharhâd i gymunedau lleol a rhyddid iddynt lunio'u dyfodol eu hunain.
- A bu Cymdeithas yr laith yn gweithredu dros hyn ac yn erbyn y rhai sy'n ecsbloetio Cymru.



NID YW CYMRU AR WERTH



1970au — Mae'n Braf Cael Byw Mewn Tŷ Haf!

Bu rhai pobl yng Nghymru'n gwneud ffortiwn allan o werthu tai Cymru fel tai haf gan orfodi teuluoedd ifanc i symud allan o'u cymunedau.

Bu Cymdeithas yr Iaith yn:

- Cynnal protestiadau fel meddiannu pentref Rhyd — lle y gwerthwyd pob tŷ ond un fel tai haf
- Rhoi stop ar arwerthiannau tai
- Gorfodi'r Llywodraeth i atal grantiau i dai haf

1980au — Daeth llw mawr o fewnfudwyr i Gymru

Gorchfygwyd Cymru o'r Newydd gan y Llyfr Sieciau.

- Bu miloedd yn gwerthu'u tai yn Lloegr a phrynu tai yng Nghymru am hanner y pris gyda digon yn weddill i fyw arno
- Daeth pobl gyfoethocach o'r tu allan i brynu siopau ein pentrefi — a'r gwestai a'r modur dai a'r tafarndai
- Bu Llywodraeth Thatcher yn hybu gwerthu i ffwrdd asedau Cymru trwy breifateiddio

Collodd Cymunedau Cymraeg eu rheolaeth dros eu dyfodol.

Collodd Cymry ifanc y gallu i brynu tai yn lleol.

Collodd Cymry ifanc yr hawl i waith yn lleol.



Chwalwyd cymunedau Cymraeg, collwyd llawer o Gymry ifanc a daeth mewnlifiad mawr i Seisnigo'n pentrefi.

Bu Cymdeithas yr Iaith yn gweithio gyda Cyngorau Lleol Cymru trwy'r 1980au i gryfhau cymunedau lleol, ac wedyn daeth... →

Ateb y 1990au — DEDDF EIDDO

- i roi'r grym yn ôl i bobl Cymru yn eu cymunedau lleol
- i reoli'r farchnad dai, y broses gynllunio a'r economi, hynny yw i gael llunio'n dyfodol ein hunain



Cymunedau Rhydd — Er mwyn dyfodol Cymru a'r Iaith

Golygai Deddf Eiddo:

- 1 Ymchwil a strategaeth
- 2 Tai i'w rhentu
- 3 Cymorth i brynwyr tro-cyntaf
- 4 Blaenoriaeth i bobl leol
- 5 Cynllunio i'r Gymuned
- 6 Ailasesu caniatâd cynllunio

Yn nechrau'r 1990au, aeth Alun Llwyd a Branwen Nicholas i garchar i ddangos mor bwysig oedd yr ymgyrch.

1996 — sgandal Morfa Bychan.

Yn dilyn Etholiad 1997 mae Deddf Eiddo nôl ar yr agenda gwleidyddol.

Bydd y Gymdeithas yn pwyso nes ennill y frwydr hon — er mwyn pentrefi Cymru.

Gweithredu difrifol — ond mae'r Gymdeithas yn gweithio ar bob lefel.



CYNLLUNIO DYFODOL I'R IAITH

Bu degau o aelodau Cymdeithas yr Iaith yn gweithio'n ddiwyd trwy'r 1980au...

— yn paratoi arolygon a chynlluniau iaith mewn gwahanol ardaloedd o Gymru

— yn cynnal cynadleddau 'Cynllunio Dyfodol i'r Iaith' yng Nghlwyd, Caerfyrddin a Cheredigion gan berswadio awdurdodau lleol Cymru i ymateb i her y mewnlifiad a rhoi cyfle i'n pobl

Buddugoliaeth

Llwyddwyd i gael y Swyddfa Gymreig i roi Statws Cynllunio i'r iaith. Danfonwyd cyfarwyddyd statudol at gynghorau Cymru yn esbonio y gellid cymryd i ystyriaeth yr effaith ar yr iaith a'r gymuned leol wrth benderfynu ar geisiadau am ganiatâd cynllunio i adeiladu tai yn lleol.

Mae hyn wedi arbed llawer o bentrefi rhag y difrod a wnaethpwyd i lefydd fel Harlech, Gaerwen a Dinbych yn y 1980au.

Wedi cyfnod tawel, dechreuodd y mewnlifiad ail-gynyddu yn ail hanner y 1990au

→ A ydym ni'n barod i wynebu'r her eto?

→ Ac a oes 'na ddigon o waith i gadw Cymry yma yn y lle cyntaf?

→ IAITH A GWAITH

Ym 1984, aeth y glöwyr ar streic — nid am gyflogau gwell, ond i gadw gwaith ar gyfer dyfodol eu cymunedau.

— Bu Cymdeithas yr Iaith yn eu cefnogi trwy gyhoeddusrwydd, picedu, codi arian a threfnu gwyliau i deuluoedd glöwyr. Gydag ychydig fwy o gefnogaeth, buasai'r glöwyr wedi ennill a'u hanes yn wahanol

— Yn lle hynny, cafodd Llywodraeth Thatcher rwydd hant i ddirigio seiliau economaidd cymunedau lleol ac achosi allfudiad mawr o Gymry ifanc

— Sylfaen economaidd llawer o Gymru yw ein gwasanaeth cyhoeddus — dan ymosodiad gan y Torïaid, a Llafur yn gwrthod gwario mwy

Rhaid wrth ddatblygu economaidd sydd wedi anelu at gynnal cymunedau lleol.

Dyma un o ymgyrchoedd pwysig y dyfodol ac y mae modd estyn brwydr yr iaith i'r frwydr dros yr economi

Ac Eto...

Mae angen i weithwyr gael cyfrifoldeb dros eu diwydiannau. Y man cychwyn yw'r brwydrau i atal cau ffatrioedd. Bu'r Gymdeithas yn cydweithio gyda nifer o bwyllgorau gweithredol gweithwyr (e.e. Shotton ym 1973 trefnodd y Gymdeithas gyfarfod cyhoeddus gyda'r gweithwyr).

Cychwynnodd y Gymdeithas drwy fynnu statws i'r Gymraeg mewn siopau, banciau ayyb, a chafodd nifer o fuddugoliaethau. Mae Marks & Spencers a Spar a Tesco wedi rhoi lle i'r Gymraeg am y tro cyntaf ym myd masnach er bod llawer iawn o waith i'w wneud yn y maes hwn eto.

Mae'r iaith yn arf bwysig.

Yr unig ffordd y gall cwmnïau fel hyn sicrhau statws i'r Gymraeg yw trwy sefydlu cyfundrefn ddsbarthu nwyddau ar wahân i Gymru.

Y camau amlwg nesaf yw edrych ar faint o nwyddau'r siopau hyn a wneir yng Nghymru ac ymhle mae buddsoddiadau'r banciau.

Mae'n amlwg felly fod gwaith enfawr o'n blaenau.

Cymdeithas sydd yn datblygu mewn profiad megis Cymdeithas yr Iaith sydd yn fwyaf abl i wynebu'r her hon.

Gydag amser, enillodd y Gymdeithas brofiad a chasglodd gronfa o wybodaeth na all yr un mudiad neu blaid sy'n sefydlu ei hun o'r newydd fyth gystadlu ag ef.

Ond ni allwn newid holl sylfaen economaidd Cymru ar ein pennau ein hunain.

Estynnwn at fudiadau radicalaidd eraill gyda her. Mae Cymdeithas yr Iaith yn datgan na bydd yr ogwydd i'r dde (a welwyd yn y 1980au dan Thatcher a Reagan) yn parhau am byth.

Gall Cymru fod ar flaen y symudiad yn ôl at ddyrchafu gwerthoedd dynol a chymdeithas yn lle elw.

CYMRU RYDD — ER MWYN YR IAITH!

Yn Eisteddfod Genedlaethol 1995, cyhoeddodd Cymdeithas yr Iaith ymgyrch dros ryddid gwleidyddol i Gymru, yn cynnwys

— Rhyddid a'r grym mwyaf posibl i gymuendau lleol Cymru i lunio'u dyfodol eu hunain

— Senedd genedlaethol o gynrychiolwyr o'n cymunedau lleol

— Cyrff cynrychioladol o bawb sy'n gweithio mewn meysydd arbennig i gymryd cyfrifoldeb am eu dyfodol, er enghraifft Cyngor Addysg Cenedlaethol i Gymru

— Rhyddid a grym i Gymry ifanc i adeiladu dyfodol i'n gwlad



Rhaid wrth ryddid a grym gwleidyddol i ddiogelu'r iaith a chymunedau Cymru

Ac eto, aeth y Llywodraeth Doriäidd ati i gymryd i ffwrdd yr ychydig ryddid a oedd gan bobl Cymru gan danseilio Cyngorau Lleol Cymru, Undebau Llafur, Y Pwyllgor Datblygu Addysg Gymraeg — pawb a allai eu gwrthwynebu.

Gan nad oed y Toräid yn gallu ennill grym democrataidd yng Nghymru, sefydlon nhw eu Quangos o'u pobl eu huanin i'n rheoli.

- Quangos Cwricwlwm ac Asesu'n Hysgolion
- Quangos Ariannu'n Colegau Ni
- Quangos Tai Cymru
- Quangos Datblygu Economaidd Cymru
- a'u hoff QUANGO IAITH



Ceisiodd y Torïaid *brynu*'r Cymry Cymraeg trwy roi iddynt grantiau i ddiwylliant Cymraeg a'u Quangos bach eu hunain ar yr amod nad oeddent yn herio'r drefn. Byd bach cysurus Cymraeg i'r breintiedig rai.

NA

NA meddai Cymdeithas yr Iaith — mae brwydro dros y Gymraeg yn rhan o'r brwydr dros *ryddid i'n holl bobl*.

Gweithredodd y Gymdeithas dros ryddid

Hydref 1996 Rali fawr o dros 1,000 o bobl tu allan i'r Swyddfa Gymreig gyda Pharti Ffarwél i'r Torïaid a Gorymdaith dros Ryddid trwy strydoedd y Brifddinas.

Ionawr 1997 Meddianwyd Swyddfa'r Ysgrifennydd Gwladol ar y pryd — William Hague — yng Ngogledd Lloegr i brotestio'n erbyn rheolaeth ar Gymru o Loegr.

Dywedodd y Blaid Lafur y byddent yn chwalu'r Quangos yng Nghymru.

Rhaid sicrhau na all trefn caethiwed y Quangos barhau.



➤ YMLAEN AT RYDDID I GYMRU! ➤

Y genhedlaeth nesaf o Gymry fydd yn penderfynu tynged yr iaith

A fydd Cymry ifanc yn

- Penderfynu aros yng Nghymru i geisio cartref a gwaith?
- Dysgu sut i amddiffyn eu gwlad a'u hiaith?
- Byw eu bywyd trwy gyfrwng y Gymraeg?
- Brwydro gyda Chymdeithas yr Iaith?

RHYDDID I'R IFANC

I roi'r grym a'r gallu i bobl ifanc adeiladu dyfodol i Gymru a'r iaith.

- 1 **Fforwm Ieuenticid** ym mhob sir fel bod yn rhaid ymgynghori â phobl ifanc am bob datblygiad o bwys
- 2 **Grym yn yr Ysgol** — Cyngorau grymus i fyfyrwyr ysgol ac addysg berthnasol sy'n rhoi gwybodaeth am beth sy'n digwydd yn y Gymru gyfoes
- 3 **Grym yn y Cyfryngau** — i bobl ifanc greu eu rhaglenni eu hunain gydag Adran Rhaglenni Ieuenticid yn y BBC
- 4 **Polisi Tai i Ieuenticid** gan bob Awdurdod Lleol
- 5 Nawdd i **Ddiwylliant Ieuenticid**

Anwybyddir llais pobl ifanc ym mhob rhan o Gymru — ond pobl ifanc sydd wedi arwain Cymdeithas yr Iaith.



O!

Rhyddid i'r Ifanc — Gall Cymru arwain y byd!

BYWYD NEWYDD I'R HEN IAITH



Ar un adeg yr oedd ieuentid Cymru yn cysylltu Cymraeg â phethau hen-ffasiwn oedd ar fin darfod.

Daeth tro ar fyd a gwelwyd bywyd newydd mewn pethau Cymraeg. Erbyn hyn, mae diwylliant ieuentid cyfoes a chyffrous yn y Gymraeg.

Ac o blith aelodau Cymdeithas yr Iaith daeth recordiau, cylchgronau, llyfrau a nosweithiau o adloniant.

Mae grwpiau adloniant Cymdeithas yr Iaith yn trefnu gigs ledled Cymru, ac yn ystod 1996 talwyd cyfanswm o tua £25,000 i'r grwpiau.

Llawenydd y Frwydr

Y GRYM DI-DRAIS

Cred Cymdeithas yr Iaith yn ddi-ysgog yng ngrym y dull di-drais o weithredu.

Nid cred negyddol yw hon, ond yn hytrach sylfaen i ddull cadarnhaol ac ymosodol o weithredu. Fel y dywedodd Cynog Dafis ym Maniffesto cynta'r Gymdeithas,

'O'r cychwyn, parodwydd aelodau'r Gymdeithas hon i gyflawni tor-cyfraith ... a roddodd rym ac arddeliad i'w hymgyrchoedd. Ein safbwynt ni yw hyn: bod cyflawni tor-cyfraith i sicrhau cyfiawnder, wedi i'r awdurdodau fethu ag ymateb i geisiadau moesgar ... nid yn unig yn gyfiawn, ond yn ddyletswydd.'

Nid oes lle i gasineb y tu fewn i'r Gymdeithas a chredwn mai ar ein hysgywyddau ein hunain y mae'r cyfrifoldeb o gyflawni'r gwaith.


Y mae cyfrifoldeb mawr arnom. Oni lwyddwn ni drwy dulliau di-drais grymus, bydd eraill yn troi at dulliau trais.

Bydd Cymru'n cael ei thynnu i *gul-de-sac* trais a gwrth-drais a bydd gwir nôd y frwydr yn mynd yn angof.

Dywed llawer mai 'dim ond trais mae Llywodraeth Lloegr yn ei deall'. Fwya oll o reswm felly dros ddefnyddio grym nad ydyn nhw *ddim* yn ei ddeall!

Cymdeithas o Bobl yw Cymdeithas yr Iaith

yn cynnal ei gilydd ac yn annog ei gilydd ymlaen. Mae'n lot fwy o her a hwyl nag eistedd o flaen y teli!



Fydd y Chwyldro Ddim ar y Teledu, Gyfail.



➔ **DEWCH GYDA NI**

Mae cymaint i'w wneud o hyd.

Rhaid i ni fynnu pecyn gweithredu ar frys gan y Llywodraeth newydd

- Deddf Iaith Gyflawn
- Deddf Addysg i Gymru
- Deddf Eiddo

Rhaid i ni weithio ym mhob cymuned i Gymreigio pob rhan o'n gwlad.

Ac mae cymaint o'n pobl heb waith, heb gyfeiriad ac heb obaith. Ein brwydr a'n braint ni yw ennill rhyddid i'n pobl adeiladu Cymru Rydd, Cymru Gymraeg.

Dewch gyda ni

DYMA GYMDEITHAS YR IAITH



Gall unrhyw un sy'n ymuno â Chymdeithas yr Iaith fwrw iddi yn syth.

Fe gewch wybod am eich **cysylltwr lleol** os ffoniwch y Brif Swyddfa yn Aberystwyth (01970 624501). Holwch y cysylltwr am y gwaith lleol a dyddiad y cyfarfod nesaf. Mae trefnydd i bob ranbarth ar y Senedd sy'n cyfarfod bob mis.

Mae gan y Gymdeithas **grŵp** arbennig i ofalu am agweddau gwahanol o'r gwaith (Grŵp Addysg, Grŵp Statws, Grŵp Adloniant ayyb). Cewch ddod yn aelod o'r grwpiau hyn yn syth, dim ond i chi nodi hynny ar y ffurflen ymaelodi.

Y **Cyfarfod Cyffredinol** a gynhelir bob mis Mawrth yn digwyddiad blynyddol pwysicaf y Gymdeithas. Mae croeso i bob aelod ddod i hwn i bleidleisio ar gynlluniau'r Gymdeithas am y flwyddyn ganlynol.

Cewch anfon cynigion i'r Cyfarfod Cyffredinol ar y camau yr hoffech weld y Gymdeithas yn eu troedio, a chynnig enwebiadau ar gyfer swyddi arweinwyr grwpiau a swyddogion.

Fe gewch gylchlythyrau yn rhoi gwybod am waith y Gymdeithas a digwyddiadau pwysig.

Cewch gyfrannu yn y gwaith o'r diwrnod yr ydych yn ymaelodi.

Fedrwch chi ddim rhoi'r gorau i ddarllen nawr, na fedrwch?!

Archebwch gopi o'n Maniffesto o Brif Swyddfa'r Gymdeithas i gael esboniad manylach o'n polisïau a rhestr o'n cyhoeddiadau eraill.



c y m d e i t h a s y r i a i t h g y m r a e g
cymdeithas yr iaith gymraeg

Nid cyfaddawdu, nid esgusodi'r Llywodraeth, nid cefnogi'r Quangos na chynnal y sefydliad yw ein gwaith. Ein hunig swyddogaeth yw chwalu'r drefn bresennol a gosod sylfeini o'r newydd.

Cysylltwch â

prif swyddfa
cymdeithas yr iaith gymraeg
15 rhodfa'r gogledd
aberystwyth
ceredigion
SY23 2JH

ffôn +44 (0)1970 624501

ffacs +44 (0)1970 627122

e-bost swyddfa@cymdeithas.com

y we <http://www.cymdeithas.com>

